STRATEGAETH GLINIGOL GOGLEDD CYMRU
GWASANAETHAU GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL

ADRODDIAD SCAA – Cam I

Sefyllfa

Yn dilyn adolygiad gwasanaethau llym Gogledd Cymru 2006, Cynllun Gogledd Cymru, amlygwyd yn gywir y diffyg sylw a roddwyd i'r effaith y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau llym yn ei gael ar ofal sylfaenol a chymuned.

O ganlyniad, mae'r angen i ddisgrifio sut bydd gwasanaethau yn y gymuned yn newid i gwrdd â'r galw sydd ar gynnydd a chefnogi newidiadau mewn gwasanaethau llym wedi'u cytuno fel blaenoriaeth strategol allweddol yng Ngogledd Cymru. Ymgymerwyd ag adolygiad i ateb y cwestiwn canlynol:

Sut ydym ni'n darparu'r model ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yng Ngogledd Cymru?

Mae tîm craidd wedi cael ei sefydlu i arwain y gwaith hwn a datblygu cynigion i'w hystyried gan y grwpiau arbenigwyr a budd-ddeiliaid ehangach. Yn ystod y 30 diwrnod cyntaf, mae'r tîm craidd wedi bod yn sganio'r llenyddiaeth sydd ar gael a chyflwyno'r adroddiad cryno hwn i'w ystyried.

Cefndir

Dros y cam cyntaf ymgymerwyd â'r gwaith canlynol gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol:

- Adolygiad o waith lleol a ymgymerwyd i ddatblygu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Fframweithiau Gwasanaethau Cymunedol a Chynlluniau Gweithredu Cyflyrau Cronig.
- Asesiad o anghenion gofal iechyd bwrdd gwaith gan ddefnyddio deunydd sydd wedi'i gyhoeddi eisoes;
- Crynodeb o broffil cyfredol darpariaeth gwasanaeth a datblygiadau arfaethedig;
- Adolygiad cyflym o lenyddiaeth mewn perthynas â symud gofal i osodiadau cymunedol;
- Crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd am y prosiect hyd yn hyn;
- Disgrifiad arfaethedig o fodel gofal y dyfodol.

Bydd y manylion technegol y tu ôl i bob un o'r elfennau hyn ar gael ar wefan Strategaeth Glinigol Gogledd Cymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Asesiad

Mae'r heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus dros y blynyddoedd sydd i ddod mewn perthynas â'r newidiadau a ragwelir mewn demograffeg y boblogaeth, baich cynyddol clefyd cronig, technolegau newydd a disgwyliadau'r cyhoedd wedi'u dogfennu'n dda.

Mae bob un o'r Byrddau Iechyd Lleol cyfredol yng Ngogledd Cymru wedi datblygu cynlluniau gwasanaethau cymunedol. Tra mae amrywiad lleol i'r cynlluniau hyn, mae hefyd nodweddion sy'n debyg a blaenoriaethau allweddol, megis:

- I gadw pobl yn ffit ac iach, gan hybu ffitrwydd a ffyrdd iachach o fyw;
- I integreiddio a chydlynu gwasanaethau'n well yn y gymuned ar draws iechyd a gofal cymdeithasol;
- I sicrhau darpariaeth gwasanaethau yn y ffordd fwyaf clinigol briodol, effeithlon a chost effeithiol.

Mae'r adolygiad ar lenyddiaeth yn nodi cyfeiriad teithio sy'n symud gwasanaethau i'r gymuned lle'n briodol, gan ddarparu gwasanaethau sy'n agosach at lle mae pobl yn byw. Mae sawl model gofal effeithiol, ond nid oes yr un model yn dominyddu.

Tra bod sail y dystiolaeth yn gymysg o ran effeithiolrwydd cost o symud gwasanaethau, mae negeseuon allweddol ynghylch y cyfleoedd ar gyfer gwneud gwelliannau mewn gofal cleifion mewn perthynas â rheolaeth clefyd cronig, gyda rhai negeseuon cyson sut y gellir darparu'r rhain.

Mae tystiolaeth ddibynadwy i gefnogi datblygiad modelau cymunedol o ofal sy'n rhoi pwyslais ar atal a rheolaeth ragweithiol, gwasanaethau'n canolbwyntio ar ganlyniadau gan gynnwys ail-alluogi a 'gofal a reolir yn amlddisgyblaethol'.

O'n gwaith hyd yn hyn, gellir disgrifio elfennau allweddol arfaethedig model gofal sylfaenol a chymunedol Gogledd Cymru fel a ganlyn:

- **Gwasanaethau'n seiliedig ar ymarfer**; Meddygfeydd MT, fferyllfeydd, optegwyr a deintyddfeydd.
- **Gwasanaethau ar gael ar lefel ardaloedd.** Diffinnir ardaloedd fel poblogaethau rhwng 30,000 a 50,000, a phob un gyda thîm arweinyddiaeth/rheolaeth graidd benodedig yn cynnwys MT, uwch nyrs a rheolwr gwasanaethau cymdeithasol. Bydd bob tîm yn gweithredu o fewn llywodraeth ffurfiol a fframwaith atebolrwydd fel rhan o BILl newydd Gogledd Cymru.
- **Gwasanaethau ar gael ar lefel uwch ardaloedd.** Gallai'r lefel hwn fod ar draws dwy neu fwy o ardaloedd, ar draws un sir, neu ar draws sawl sir, yn

seiliedig ar y galw am wasanaethau ac arbenigeddau penodol.

Mae'r model hwn yn cael ei hysbysu gan, a bydd yn cefnogi cynlluniau gwasanaethau cymunedol BILl, Strategaeth Nyrsio Gymunedol Cymru (allan i ymgynghoriad ar hyn o bryd) a'r gwaith a ymgymerwyd yn ddiweddar gan Gonsortiwm Economeg Iechyd Efrog ar ran Llywodraeth Leol Gogledd Cymru a'r GIG.

Argymhellion

Wrth ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o Gam I, mae'r tîm craidd yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r grwpiau arbenigol a budd-ddeiliaid a fydd yn cael ei ystyried yn y digwyddiad ar 1 Ebrill.

- Fod y model gofal a fanylir arno yn y papur crynodeb yn cael ei gefnogi;
- Fod ystyriaeth yn cael ei roi ar sut mae'r trefniadau gweithio ar y cyd rhwng y sefydliadau GIG cyfredol a'r Awdurdodau Lleol, sector gwirfoddol ac annibynnol yng Ngogledd Cymru yn parhau ac yn datblygu;
- Fod arbenigwyr a budd-ddeiliaid yn nodi'r gwasanaethau craidd mae'r cyhoedd yn disgwyl eu gweld ar draws Gogledd Cymru, yn seiliedig ar gynllunio lleol ac agwedd darpariaeth (bydd rhestr gynhwysfawr o wasanaethau posibl yn cael ei ddarparu yn y digwyddiad);
- Nodi elfennau o'r gwasanaeth y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith mwy manwl yn y cam nesaf.